# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**CYD-BWYLLGOR YMGYNGHOROL A.H.N.E LLŶN**

Dyddiad ac Amser

**4.30 y.h., DYDD MAWRTH, 20FED TACHWEDD, 2018**

Lleoliad

**Plas Heli, Pwllheli, LL53 5YQ**

Pwynt Cyswllt

**Bethan Adams**

**01286 679020**

**BethanAdams@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd 12/11/18)

# CYD-BWYLLGOR YMGYNGHOROL A.H.N.E LLŶN

## AELODAETH

**Cynghorwyr Gwynedd**

**Anwen Davies**
**Simon Glyn**
**John Brynmor Hughes**
**Aled Wyn Jones**
**Gareth Williams**

**Eraill**

**Enwebeion Cynghorau Cymuned Aberdaron, Buan, Botwnnog, Clynnog, Llanbedrog, Llanaelhaearn, Llanengan, Nefyn, Pistyll a Thudweiliog.**

**Pencampwr Cefn Gwlad Cyngor Gwynedd**

**Enwebeion yr asiantaethau/sefydliadau canlynol**

**Ymddiriedolaeth Genedlaethol,**
**Cyfoeth Naturiol Cymru,**
**Fforwm Mynediad Arfon a Dwyfor,**
**Cyfeillion Llŷn,**
**Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr,**
**Undeb Amaethwyr Cymru,**
**Partneriaeth Dwristiaeth Abersoch a Llŷn,**
**Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig/CPRW,**
**Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd,**
**Cymdeithas Pysgotwyr Llŷn.**

# R H A G L E N

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Ystyried unrhyw fater arall sydd yn teilyngu sylw brys ym marn y Cadeirydd.

**4. COFNODION** 4 - 8

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 17 Gorffennaf 2018, fel rhai cywir.

**5. LLWYBR ARFORDIR CYMRU**

I dderbyn cyflwyniad gan Swyddog Prosiect Llwybr Arfordir.

**6. DIWEDDARIAD PROSIECTAU GWASANAETH AHNE LLŶN** 9 - 10

Cyflwyno adroddiad Swyddog Prosiectau AHNE Llŷn.

**7. ADOLYGIAD O'R TIRWEDDAU DYNODEDIG** 11 - 13

Cyflwyno adroddiad Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn.

**8. DATBLYGIAD TWRISTIAETH YM MHISTYLL** 14 - 15

Cyflwyno adroddiad Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn.

# CYD-BWYLLGOR YMGYNGHOROL ARDAL O HARDDWCH NATURIOL EITHRIADOL LLŶN 17/7/18

**Yn bresennol**:

Morgan Jones-Parry (Fforwm Mynediad Arfon a Dwyfor) (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Gareth Williams (Cyngor Gwynedd) (Is-Gadeirydd)

**Aelodau:** Y Cynghorwyr Anwen Davies, Aled Wyn Jones a John Brynmor Hughes (Cyngor Gwynedd), Noel Davey (Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig), Jina Gwyrfai (Cyngor Cymuned Llanaelhaearn), Laura Hughes (Ymddiriedolaeth Genedlaethol), T. Victor Jones (Cyngor Cymuned Llanbedrog), Gruffydd Williams (Cyngor Tref Nefyn) a Wenda Williams (Cyngor Cymuned Aberdaron).

**Swyddogion:** Bleddyn P. Jones (Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn), Elin Wyn Hughes (Swyddog Prosiect AHNE Llŷn), Wyn Williams (Rheolwr Cefn Gwlad a Mynediad) a Bethan Adams (Swyddog Cefnogi Aelodau).

**Eraill a wahoddwyd:** Alan Jones (SP Energy Networks)

**Ymddiheuriadau:** John Gosling (Partneriaeth Dwristiaeth Abersoch a Llŷn), Sianelen Pleming (Cyngor Cymuned Pistyll), Sian Parri (Cyngor Cymuned Tudweiliog), Alun Price (Cyfoeth Naturiol Cymru) a Gillian Walker (Cyfeillion Llŷn).

**1. ETHOL CADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ethol Morgan Jones-Parry yn Gadeirydd am y flwyddyn 2018/19.**

**2. IS-GADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ail-ethol y Cynghorydd Gareth Williams yn Is-gadeirydd am y flwyddyn 2018/19.**

**3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**4. MATERION BRYS**

Nododd Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn drwy ei amryfusedd nad oedd yr eitem ganlynol wedi ei gynnwys ar y rhaglen.

<u>Tanddaearu gwifrau trydan</u>

Croesawyd Alan Jones (SP Energy Networks) i'r cyfarfod. Rhoddodd gyflwyniad ar gynllun tanddaearu gwifrau trydan yn yr AHNE gan nodi y cynhelir cyfarfodydd diweddaru efo swyddogion yr AHNE bob 6 mis. Manylodd ar y gwaith a gwblhawyd yn ystod y cyfnod 2010-15 yn Aberdesach, Rhiw a Llithfaen a'r gwaith a gwblhawyd ac oedd yn symud yn ei flaen ers 2015 ym Mynydd Cilan, Comin Mynytho, Sarn Bach, Dwyros a Bryncynan. Nododd bod cyllideb o £8 miliwn wedi ei glustnodi ar gyfer y 3

AHNE a'r Parciau Cenedlaethol yn y gogledd am y cyfnod 2015-22 a bod angen adnabod prosiectau ar gyfer y dyfodol.

Mewn ymateb i sylwadau gan aelodau yng nghyswllt tirlithriad o ganlyniad i erydiad dŵr yn dilyn cwblhau gwaith tanddaearu yn Nant Gwrtheyrn a diogelwch y gwaith adfer, nododd cynrychiolydd SP Energy Networks y byddai'n edrych i mewn i'r mater.

Holodd Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn am y gwaith tanddaearu ar Gomin Mynytho. Mewn ymateb, nododd cynrychiolydd SP Energy Networks y byddai'r gwaith yn mynd yn ei flaen unwaith ceir hawl gan y tirfeddiannwr.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod yng nghyswllt pwy oedd yn penderfynu o ran y safleoedd y gwneir gwaith tanddaearu gwifrau trydan, eglurodd cynrychiolydd SP Energy Networks bod swyddogion yr AHNE yn cynnig safleoedd posib a'i fod ef yn ystyried ymarferoldeb tanddaearu gwifrau trydan yn y safleoedd posib. Ymhelaethodd bod gweithredu ar safleoedd oedd yn ymarferol bosib i wneud y gwaith yn ddibynnol ar dderbyn hawl gan y tirfeddiannwr. Eglurodd bod tirfeddiannwr yn derbyn taliad *way-leave* am wifrau trydan uwchben y tir oherwydd eu heffaith ar waith amaethyddol o ddydd i ddydd a bod taliad llai ar gyfer gwifrau trydan wedi eu tanddaearu. Eglurodd ymhellach bod tirfeddiannwr yn gallu rhoi rhybudd i derfynu'r hawl os nad oedd hawddfraint ar y tir yn weithredol. Nododd mai anghyffredin oedd y defnydd o hawddfraint ar dir gan ei fod yn broses anoddach.

Holodd aelod faint oedd cyfanswm hyd gwifrau trydan uwchben y tir yn yr AHNE. Mewn ymateb, nododd cynrychiolydd SP Energy Networks mai cyfran fechan o'r rhwydwaith cyflawn oedd uwchben y tir. Ychwanegodd y canolbwyntir ar yr ardaloedd mwyaf ymarferol o ran tanddaearu gwifrau trydan.

Tynnodd Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn sylw bod erthygl wedi ei gynnwys yng nghylchgrawn 'Llygad Llŷn' ar y gwaith a gwblhawyd yng Nghilan.

Cyfeiriodd aelod at newidydd trydan nad oedd bellach yn weithredol ger cyn waith carthffosiaeth Nefyn a holodd o ran ei dynnu oddi yno. Nododd cynrychiolydd SP Energy Networks y byddai'n edrych i mewn i'r mater.

Diolchodd y Cadeirydd i gynrychiolydd SP Energy Networks am ei gyflwyniad.

Nododd cynrychiolydd SP Energy Networks y byddai'n cysylltu efo Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn o ran safleoedd posib ar gyfer tanddaearu gwifrau trydan.

<u>Pencampwr Cefn Gwlad</u>

Nododd Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn bod y Cynghorydd Angela Russell wedi ei phenodi yn Bencampwr Cefn Gwlad gan Gyngor Gwynedd. Ymhelaethodd y byddai yn ei rôl yn hyrwyddo materion cefn gwlad. Eglurodd bod y Pencampwr yn derbyn gwahoddiad i gyfarfodydd y Cyd-Bwyllgor fel sylwedydd ond bod opsiwn i addasu'r cyfansoddiad fel bod y Pencampwr yn aelod llawn o'r Cyd-Bwyllgor.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod parthed y broses benodi, nododd Rheolwr Cefn Gwlad a Mynediad mai'r Aelod Cabinet Amgylchedd oedd yn gyfrifol am y penodiad a bod y Cynghorydd wedi ei dewis gan ei bod yn Bencampwr Bioamrywiaeth yn flaenorol.

**PENDERFYNWYD addasu cyfansoddiad y Cyd-Bwyllgor i gynnwys Pencampwr Cefn Gwlad Cyngor Gwynedd yn aelod llawn o'r Cyd-Bwyllgor.**

## 5. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod diwethaf o'r Cyd-Bwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 20 Rhagfyr 2017, fel rhai cywir.

## 6. CYNLLUN RHEOLI'R AHNE

Cyflwynodd Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn yr adroddiad, gan nodi bod Cynllun Rheoli'r AHNE wedi ei fabwysiadu yn ffurfiol gan y Cyngor trwy drefn ddirprwyedig yr Aelod Cabinet Amgylchedd.

Cyfeiriodd at yr adolygiad nesaf o'r Cynllun Rheoli, gan nodi bod Cyfoeth Naturiol Cymru, a oedd yn cydgordio gwaith cenedlaethol ar yr AHNE, wedi dechrau paratoi canllawiau newydd ar gyfer yr adolygiad nesaf. Nododd ei fod yn ymddangos o ganlyniad i ddatblygiadau diweddar o ran Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a'r Deyrnas Unedig yn gadael yr Undeb Ewropeaidd, y byddai rhai newidiadau i'r broses a'i fod yn debygol y byddai statws y cynlluniau yn uwch.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod o ran statws Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) yng Nghymru yn dilyn gadael yr Undeb Ewropeaidd, nododd Rheolwr Cefn Gwlad a Mynediad eu bod wedi eu dynodi o dan gyfraith gwlad.

Holodd aelod yng nghyswllt cyhoeddi'r Cynllun Rheoli. Mewn ymateb, nododd Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn bod y Cynllun wedi ei anfon i'r argraffdy i'w brintio, gan egluro y byddai copïau caled ar gael yn fuan a fe gyhoeddir fersiwn electroneg ar y we.

**PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth.**

## 7. MATERION CENEDLAETHOL

Cyflwynodd Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn yr adroddiad, a oedd yn rhoi diweddariad o ran yr adolygiad mewn perthynas â'r tirweddau dynodedig (Parciau Cenedlaethol a'r AHNE) yng Nghymru.

Nododd bod Hannah Blythyn AC wedi ei phenodi yn Weinidog dros yr Amgylchedd yn Nhachwedd 2017 a'i bod hi bellach efo cyfrifoldeb dros dirweddau dynodedig Cymru. Adroddodd bod y gweinidog wedi cadarnhau mewn datganiad i'r Senedd ar 13 Mawrth 2018 bod Llywodraeth Cymru yn ymroddedig i'r tirweddau dynodedig. Ychwanegodd ei bod wedi nodi bod cydraddoldeb rhwng yr AHNE â'r Parciau Cenedlaethol o ran polisi cynllunio ond nad oedd hynny yn wir o ran statws, proffil ac adnoddau. Disgwylir cyhoeddiad pellach yn Sioe Frenhinol Cymru.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod yng nghyswllt cyllid pellach i'r AHNE, nododd Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn nad oedd cyfeiriad at gyllid pellach ond bod sylwadau'r gweinidog yn gadarnhaol a gobeithir y byddai mwy o statws i'r AHNE.

Nododd aelod y byddai'n anodd gwireddu heb gyllid pellach. Holodd aelod os dylid ystyried nodi ffigwr i Lywodraeth Cymru o ran faint o gyllid yr oedd angen i wireddu. Mewn ymateb, nododd Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn os byddai statws yr AHNE yn cael ei uchafu i fod yr un statws a'r Parciau Cenedlaethol disgwylir i Lywodraeth Cymru amlinellu o ran gweithdrefnau ac yna edrych ar yr adnoddau ar gyfer gwireddu. Ychwanegodd bod trafodaethau yn cael eu cynnal rhwng y 5 AHNE, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Gymdeithas dros AHNE er mwyn cyflwyno cynnig gerbron Llywodraeth Cymru yn fuan.

Nododd aelod bod datganiad y gweinidog yn un cyffrous, cyn y datganiad roedd yn aneglur iawn o ran statws ac amcanion yr AHNE. Ychwanegodd ei bryder na fyddai argymhellion yr Athro Terry Marsden, yn ei adroddiad 'Tirweddau Cenedlaethol – Gwireddu eu Potensial', yn cael eu gweithredu. Mewn ymateb i'r sylwadau uchod, nododd Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn bod adroddiad yr Athro Terry Marsden yn cynnwys cyfanswm o 69 argymhelliad, roedd yn obeithiol y byddai'r argymhellion pwysicaf yn cael eu gweithredu.

**PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth.**

## 8. MATERION CYNLLUNIO

Cyflwynwyd adroddiad Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn yn gwybyddu'r aelodau am 3 apêl cynllunio am ddatblygiadau yn yr AHNE, sef:

- The Shanty, Abersoch (Cais Cynllunio Rhif C17/1024/39/LL) – caniatawyd yr apêl;
- Ger Glynllifon, Llanbedrog (Cais Cynllunio Rhif C17/0725/38/AM) – gwrthodwyd yr apêl;
- Coed ger Gorse Bank, Abersoch (Cais Rhif C17/1185/39/CC) – gwrthodwyd yr apêl.

Cyfeiriodd aelod at Bolisi TWR2 'Llety Gwyliau' o Gynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn (CDLl), gan nodi ei bryder o ran y cynnydd yn y nifer o geisiadau i drosi adeiladau yn llety gwyliau. Nododd ei fod yn rhan o'r polisi i ganiatáu ceisiadau o'r fath fel rhan o ehangu busnes. Ymhelaethodd ei fod yn anodd gwneud ymchwil o ran gorddarpariaeth o lety hunanarlwyo yn yr ardal a bod y polisi yn benagored gan nad oedd yn nodi canran. Nododd ei fod wedi gofyn am adolygiad o'r polisi.

Mewn ymateb i'r sylwadau uchod, nododd Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn ei fod yn rhannu'r pryder, gan fod y polisi blaenorol oedd yn cyfeirio at adeiladau traddodiadol wedi ei wanhau.

Cyfeiriodd aelod at apêl 'Coed ger Gorse Bank, Abersoch', gan nodi bod coed tebyg wedi eu tynnu dros y ffordd i Whitehouse, Abersoch a coed wedi eu tocio ger y cwrs golff. Pwysleisiodd bod angen cadw golwg ar achosion o'r fath.

Mewn ymateb, nododd Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn y byddai'n crybwyll yr uchod gyda'r Uned Bioamrywiaeth ond os nad oedd gorchymyn gwarchodaeth ar y coed nid oedd posib ei atal.

Nododd aelod bod y polisïau cynllunio yn gadael pobl ifanc yr ardal i lawr gyda cheisiadau cynllunio i ail-wneud adeiladau cerrig yn cael eu gwrthod. Mewn ymateb, nododd Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn y byddai'n cyfleu'r sylwadau i'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd. Nododd aelod bod y mater wedi codi yng nghyfarfod y Panel Polisi Cynllunio ar y Cyd.

**PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth.**

## 9. PROSIECTAU

Cyflwynodd Swyddog Prosiectau AHNE Llŷn adroddiad ar waith y Gwasanaeth AHNE. Rhoddwyd diweddariad ar y prosiectau canlynol:

- Arolwg Tiroedd Comin

- Rhywogaethau Ymledol
- Hyfforddiant Sgiliau Gwledig
- Gwella Mynediad
- Awyr Dywyll.

Holodd aelod os oedd hawl mynd efo beic modur dros dir comin. Nododd aelod mai Cyfoeth Naturiol Cymru oedd yn gyfrifol am eu rheoli. Mewn ymateb i'r sylwadau uchod, eglurodd Rheolwr Cefn Gwlad a Mynediad mai mynediad ar droed yn unig oedd ar dir agored ond bod hawliau eraill mewn rhai llefydd.

Cyfeiriodd aelod at Foel Saethon lle'r oedd bryngaer Oes yr Haearn. Nododd ei fod yn dir agored ond nid oedd llwybr cyhoeddus. Mewn ymateb, nododd Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn ei fod wedi ceisio cael hawl ar gyfer Mynydd Ystum ond nid oedd y tirfeddiannwr yn rhy gefnogol. Nododd y byddai'n ceisio adnabod a chysylltu efo'r tirfeddiannwr yn yr achos yma.

Holodd aelod pam fod llwybr rhif 12 yng Nghilan wedi ei ddewis ar gyfer gwella mynediad. Mewn ymateb, nododd Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn bod y llwybr wedi ei ddewis mewn ymgynghoriad â Uwch Swyddog Hawliau Tramwy (Dwyfor).

Nododd aelod bod Cyngor Ynys Môn wedi derbyn arian grant i drin y planhigyn ymledol Jac y Neidiwr. Mewn ymateb, nododd Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn ei fod wedi siarad efo'r Swyddog AHNE yng Nghyngor Ynys Môn a'i fod wedi crybwyll mynd ato i drafod. Eglurodd bod gwaith o ran gwaredu Canclwm Siapaneaidd yn yr AHNE yn cael ei ariannu gan arian bloc grant Cyfoeth Naturiol Cymru a bod cryn waith mapio i wneud cyn cychwyn ar y gwaith.

Cyfeiriodd aelod at y llwybr oedd yn cychwyn o Gefn Morfa ac yn mynd o Blas yng Ngheidio i Geidio, gan nodi ei fod wedi gordyfu. Nododd ei bod wedi cysylltu efo Uwch Swyddog Hawliau Tramwy (Dwyfor). Mewn ymateb, nododd Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn y byddai'n cysylltu efo Uwch Swyddog Hawliau Tramwy (Dwyfor) yng nghylch y mater.

**PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth.**

Dechreuodd y cyfarfod am 4.35yh a daeth i ben am 5.50yh

____________________________
**CADEIRYDD**

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn |
| **DYDDIAD** | 20fed Tachwedd 2018 |
| **TEITL** | Diweddariad Prosiectau Gwasanaeth AHNE Llŷn |
| **PWRPAS** | Diweddaru'r Aelodau |
| **AWDUR** | Swyddog Prosiectau AHNE Llŷn |
| **ARGYMHELLIAD** | Derbyn yr wybodaeth |

**1.0 CYFLWYNIAD**

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn darparu gwybodaeth i aelodau'r Cydbwyllgor am brosiectau diweddar gan y Gwasanaeth AHNE.

**2.0 HYFFORDDIANT SGILIAU GWLEDIG**

2.1 Cynhaliwyd hyfforddiant yn ystod mis Medi i ddysgu'r grefft o adfer a chodi waliau cerrig sychion a chloddiau, sydd yn nodweddion traddodiadol pwysig yn yr AHNE.

2.2 Wrth gydweithio gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol a Choleg Meirion Dwyfor (Glynllifon) bu'r hyfforddiant ar safle'r Wal Fawr yn Llithfaen a fferm Porth Gwylan ger Tudweiliog.

2.3 Rydym yn hyderus fod y cyrsiau wedi bod yn llwyddiannus a'r bwriad yw cynnal eto yn 2019.

**3.0 PROSIECTAU GWELLA MYNEDIAD**

3.1 Llwyddwyd i ddenu ychydig o gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gwaith gwella mynediad yn yr AHNE. Cwblhawyd gwaith ar safle Mynydd Cefnamwlch (Llwybr Cyhoeddus Rhif 7). Saif siambr gladdu ar y safle hwn o'r cyfnod Neolithig.

3.2 Bellach mae yna arwydd i ddynodi'r safle, mae'r gwaith tocio coed ac ail-godi'r wal derfyn wedi creu gwelliant sylweddol i gyflwr y llwybr cyhoeddus ac mae ffens haearn bellach o amgylch y gromlech ei hun.

3.3 Cwblhawyd y gwaith yn ogystal ar welliannau i safle Ffynnon Saint ar Fynydd Y Rhiw. Mae arwyddion pwrpasol bellach ar y safle a gwaith clirio'r gordyfiant wedi gwella cyflwr y Ffynnon ei hun.

**4.0 TEITHIAU CERDDED**

4.1 Mae ein cyfres o deithiau cerdded ar gyfer 2018 wedi dod i ben. Cafwyd teithiau difyr yn ardaloedd Gyrn Goch, Nefyn a Rhiw a oedd yn canolbwyntio ar archaeoleg, bywyd gwyllt a threftadaeth morwrol yr ardal.

4.2 Rydym eisoes wedi dechrau paratoi ar gyfer teithiau cerdded 2019. Mae croeso i'r aelodau awgrymu teithiau fuasai o ddiddordeb neu ein cynorthwyo drwy gefnogi ar y diwrnod.

**5.0 Y GRONFA DATBLYGU CYNALIADWY**

5.1 Er gwybodaeth, roedd £55,000 yn y Gronfa ar ddechrau 2018/19. Bellach mae £2,000 yn weddill.

5.2 Ymysg y prosiectau a gefnogwyd eleni, mae:

- Bws Arfordir Llŷn
- Taith Tridiau Llŷn
- Eglwys Llandegwnning
- Amgueddfa Forwrol Llŷn
- Tafarn yr Heliwr
- Arddangosfa Hen Luniau – Neuadd Sarn
- Cynllun Adnewyddu Neuadd Mynytho
- Gŵyl Fwyd Pwllheli.

5.3 Rydym wedi derbyn cadarnhad fod y Gronfa yn parhau yn 2019/20.

**6.0 ARGYMHELLIAD**

6.1 Gofynnir i'r aelodau dderbyn yr wybodaeth uchod.

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | Cyd-bwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn |
| **DYDDIAD** | Tachwedd 20fed 2018 |
| **TEITL** | Adolygiad o’r Tirweddau Dynodedig |
| **PWRPAS** | Diweddaru Aelodau |
| **ADRODDIAD GAN** | Swyddog AHNE Llŷn |
| **GWEITHREDIAD** | Dim |

## 1.0 CYFLWYNIAD

1.1 Mae’r adroddiad hwn yn cynnwys gwybodaeth bellach am y sefyllfa genedlaethol mewn perthynas â’r adolygiad o Barciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol yng Nghymru.

## 2.0 TIRWEDDAU CENEDLAETHOL: GWIREDDU EU POTENSIAL

2.1 Rai blynyddoedd yn ôl fe gomisiynodd Llywodraeth Cymru adolygiad o’r tirweddau dynodedig. Penodwyd Panel dan gadeiryddiaeth yr Athro Terry Marsden i wneud y gwaith. Roedd yn adroddiad terfynol - “Tirweddau Cenedlaethol – Gwireddu eu Potensial” yn cynnwys dadansoddiad manwl o’r sefyllfa bresennol, y cyfleon a’r cyfyngiadau. Roedd hefyd yn cynnwys argymhellion ar gyfer gweithredu yn ymwneud ag egwyddorion, pwrpasau, gweledigaeth, llywodraethu, rheoli, perthynas â mudiadau eraill, cynllunio, cynrychiolaeth ac adnoddau.

## 3.0 TIRWEDDAU’R DYFODOL CYMRU

3.1 Yn dilyn Adroddiad Marsden bu i Llywodraeth Cymru sefydlu rhaglen Tirweddau’r Dyfodol Cymru i ystyried y sefyllfa ymhellach a phenodwyd yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas yn gadeirydd. Roedd hon yn raglen o hyfforddiant, ymchwil, trafod a chreu cynigion yn ymwneud yn bennaf gyda gosod gweledigaeth, llywodraethu, datblygiad economaidd ac adnoddau. Penllanw’r gwaith oedd cyhoeddi adroddiad ar y cyd – “Tirweddau’r Dyfodol – Cyflawni dros Gymru” yn Mai 2017.

## 4.0 GWEINIDOG DROS YR AMGYLCHEDD

4.1 Yn Nhachwedd 2017 penodwyd Hannah Blythyn AC yn Weinidog dros yr Amgylchedd a hi bellach sydd â chyfrifoldeb dros y Tirweddau Dynodedig Cymru. Bu i’r gweinidog wneud datganiad i’r Senedd ar Fawrth 13eg 2018 yn cyfeirio at Tirweddau’r Dyfodol Cymru.

4.2 Cadarnhaodd fod Llywodraeth Cymru yn ymroddedig i’r Tirweddau Dynodedig ac na fyddai newid yn y rheswm dros eu dynodi – sef cynnal a gwella harddwch naturiol. Dywedodd hefyd fod angen i’r tirweddau wneud mwy i adnabod, gwarchod a hyrwyddo’r buddion cyhoeddus sydd ynddynt er budd pobol Cymru.

4.3 O ran yr AHNE dywedodd hefyd fod cydraddoldeb gyda'r Parciau Cenedlaethol o ran polisi cynllunio ond nad oedd hynny yn wir o ran statws, proffil ac adnoddau. Cyfeiriodd hefyd at lywodraethu ac awgrymu er fod hyblygrwydd fod rhai gwendidau yn y trefniadau presennol. Dywedodd y Gweinidog y byddai yn cyhoeddi Datganiad Polisi yn fuan.

## 5.0 DATGANIAD Y GWEINIDOG

5.1 Yng Ngorffennaf 2018 cyhoeddodd y Gweinidog ddatganiad gyda'r teitl "Gwerthfawr a Chydnerth – Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a Pharciau Cenedlaethol". Gellir gweld copi o'r datganiad llawn ar safle we Llywodraeth Cymru.

5.2 Nodir mai bwriad y datganiad yw dod â'r broses adolygu i ben a phennu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer yr AHNE a'r Parciau. Mae'r datganiad yn nodi **pedwar amcan** ar gyfer y tirweddau dynodedig sef:

- Eu bod yn **Lleoedd Gwerthfawr**
- Fod ynddynt **Amgylchedd Cydnerth**
- Eu bod yn cynnal **Cymunedau Cydnerth**
- Fod Partneriaethau AHNE ac Awdurdodau'r Parciau yn mabwysiadu **Ffyrdd Cydnerth o Weithio.**

5.3 Hefyd gosodwyd 10 thema blaenoriaeth a nodir isod. Mae eglurhad a chyfiawnhad o'r blaenoriaethau wedi eu cynnwys hefyd.

- Tirweddau i bawb
- Esiamplau gorau o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy
- Atal dirywiad pellach o fioamrywiaeth
- Ynni gwyrdd a di-garboneiddio
- Gwireddu'r potensial economaidd
- Cynyddu twristiaeth a hamddena awyr agored
- Y Gymraeg yn ffynnu
- Mae pob tirwedd yn bwysig
- Cydweithio
- Arloesi i sicrhau adnoddau

5.4 Mae'r gofynion a'r disgwyliadau o'r Tirweddau Dynodedig yn y datganiad yn eang, amrywiol a sylweddol. Mae disgwyl iddynt weithredu ar sawl gwahanol lefel er lles yr ardaloedd a thu draw. Hefyd mae'r datganiad yn nodi y bwriad i sefydlu system adolygu perfformiad a chyflwyno trefn rheoli perfformiad i fesur effaith y dynodiad ac effeithiolrwydd yr ochor weinyddol.

5.5 Yn amlwg mae gwahaniaeth mawr rhwng Partneriaethau AHNE ac Awdurdodau'r Parciau ac felly gallu'r sefydliadau hyn i wireddu'r gofynion a wneir. Mae cyfeiriad byr at hyn yn y ddogfen gan nodi fod gwahaniaeth mewn **statws, proffil ac adnoddau** rhwng y ddau ddynodiad.

## 6.0 LLYTHYR Y GWEINIDOG

6.1 Fel dilyniant i Gwerthfawr a Chydnerth bu i'r Gweinidog ysgrifennu at y Partneriaethau AHNE, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Gymdeithas Genedlaethol dros AHNE. Yn y llythyr roedd yn gofyn i'r sefydliadau baratoi papur ar y cyd gyda cynigion o ran cael mwy o gyfartaledd rhwng Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a'r Parciau Cenedlaethol gan ganolbwyntio ar **statws, proffil ac adnoddau.** Pwysleisiwyd fod angen bod yn ymarferol a realistig o ran y cynigion.

6.2 Yn dilyn hyn bu i'r sefydliadau gyfarfod, cynnal trafodaethau a pharatowyd ymateb ar y cyd. Mae'r ymateb yn cyflwyno 12 cynnig fyddai yn cynyddu cydraddoldeb rhwng yr AHNE a'r Parciau o ran statws, proffil ac adnoddau.

- Pwrpas ychwanegol o ran mwynhau a hyrwyddo AHNE
- Cryfhau'r cyfrifoldeb ar sefydliadau perthnasol tuag at yr AHNE
- Dynodi Partneriaethau AHNE yn ymgynghorydd statudol ar faterion cynllunio
- Llywodraeth Cymru i wneud penodiad ar y Partneriaethau AHNE
- Brandio yr AHNE a'r Parciau fel "Tirweddau Cenedlaethol Cymru"
- Y Gweinidog i gynnal seminar blynyddol i hyrwyddo arfer da
- Codi statws Cynlluniau Rheoli AHNE
- Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) i ddarparu ystadegau penodol ar gyfer AHNE
- Partneriaethau ac Unedau AHNE i gael eu cyllido yn ddigonol/ hir dymor
- Y Gymdeithas dros AHNE i'w chyllido yn ddigonol er cynorthwyo Llywodraeth Cymru i weithredu Partneriaeth Tirweddau Cenedlaethol
- Llywodraeth Cymru, CNC, Awdurdodau Lleol a sefydliadau llywodraethol i gael y cryfder a'r capasiti i weithredu Gwerthfawr a Chydnerth a'r pwrpasau.

6.3 Bellach mae'r papur hwn wedi ei gyflwyno i'r Gweinidog a disgwylir am ymateb. Rhoddir diweddariad ar y mater yn y cyfarfod.

## 7.0 ARGYMHELLIAD

7.1 Derbyn yr wybodaeth

# Eitem 8

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn |
| **DYDDIAD** | Tachwedd 20fed 2018 |
| **TEITL** | Datblygiad twristiaeth ym Mhistyll |
| **PWRPAS** | Darparu gwybodaeth i Aelodau |
| **ADRODDIAD GAN** | Swyddog AHNE Llŷn |
| **GWEITHREDIAD** | Dim |

**1.0 CYFLWYNIAD**

1.1 Mae'r adroddiad hwn wedi ei gynnwys ar agenda'r Cydbwyllgor ar gais y Cadeirydd. Mae'r mater yn ymwneud gyda datblygiad twristiaeth diweddar yn ardal Pistyll sydd yn yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol.

**2.0 Y CEFNDIR**

2.1 Gwesty wedi ei adeiladu yn niwedd yr 19G gan deulu Goddard oedd Plas Pistyll. Ar ôl cyfnod llwyddiannus aeth y busnes i lawr, caewyd y gwesty yn yr 1980au a rhoddwyd ef ar werth. Bu mewn sawl perchnogaeth wedyn. Bu i gyflwr y Plas ddirywio dros amser ac aeth yn ddolur llygaid mewn safle amlwg yn yr AHNE. Rhoddodd Cyngor Gwynedd bwysau ar y perchnogion i wneud rhywbeth am gyflwr yr adeilad ar sawl achlysur.

2.2 Roedd Pistyll Farm yn arfer bod yn fferm weithredol a oedd wedi datblygu parc carafanau i greu incwm ychwanegol. Roedd 29 carafán statig ar y safle hyd at yn eithaf diweddar.

**3.0 SUSTAINABLE LEISURE LTD**

3.1 Tua 2005/6 prynwyd Pistyll Farm gan fusnes o'r enw Sustainable Leisure Ltd. Yn fuan wedyn prynwyd Plas Pistyll gan y cwmni hefyd. Cyflwynwyd 3 cais cynllunio gan y cwmni yma mewn perthynas â Plas Pistyll a Pistyll Farm :

- ***C07D/0309/43/LL*** *- Addasu ac ymestyn adeiladau allanol yn 8 uned gwyliau hunan arlwyol ac un uned ar gyfer llety staff (caniatawyd gyda amodau yn cynnwys amod rheoli preswyliaeth ond dileuwyd honno yn dilyn apêl).*
- ***C07D/0635/43/LL*** *– Adeilad hamdden ar gyfer pwll nofio, cyfnewid 29 o garafanau sefydlog am gabanau dwbl pren ac addasu gosodiad y safle (caniatawyd gyda amodau).*
- ***C08D/0422/43/LL*** *– Addasu cyn-westy Plas Pistyll yn 14 o fflatiau ar gyfer defnydd gwyliau (caniatawyd gyda amodau).*

3.2 Aeth Sustainable Leisure Ltd yn fethdalwr yn 2009 cyn cwblhau'r datblygiadau uchod.

## 4.0 NATURAL RETREATS

4.1 Daeth Natural Retreats yn berchen Plas Pistyll a Phistyll Farm yn dilyn cwymp Sustainable Leisure Ltd. Ers hynny mae'r cwmni hwn, a chwmnïau/ asiantaethau cysylltiedig, wedi cyflwyno cyfres o geisiadau cynllunio ar y ddau safle. Mae gwybodaeth am y prif geisiadau wedi ei gynnwys isod:

- ***C11/0661/43/LL*** *– Dymchwel Plas Pistyll a chodi 20 uned wyliau hunan gynhaliol a chodi 16 uned wyliau hunan gynhaliol yn lle'r safle carafanau presennol (caniatawyd gyda amodau).*
- ***C13/0322/43/LL*** *– Diddymu amod sy'n rhwystro unrhyw berson/ teulu i drigo yn yr uned am fwy na 3 mis (caniatau ond gosod amod defnydd gwyliau).*
- ***C13/1021/43/LL*** *– Adeiladu derbynfa i gynnwys swyddfa/ storfa (caniatawyd gya amodau).*
- ***C16/0976/43/LL*** *– Diwygio Amodau 2 a 7 ar hawl C11/0661/43/LL er mwyn diwygio dyluniad y datblygiad a lleihau nifer o unedau gwyliau i 19 ynghyd â diddymu Amodau 8,9 a10 (caniatawyd gyda amodau).*
- ***C16/1595/43/LL*** *– Diwygio amod er mwyn defnyddio llety staff fel llety gwyliau (caniatawyd gyda amodau).*
- ***C17/0416/43/LL*** *– Addasiadau i uned wyliau yn cynnwys gosod 3 nen olau cadwriaethol, ffenestr dalcen newydd ac addasiadau mewnol (caniatawyd gyda amodau).*
- ***C17/1010/43/LL*** *– Diwygio amodau ar ganiatad C11/0661/43/LL - Amod 2 er adeiladu unedau gwyliau yn unol â chynlluniau diwygiedig ac Amod 21 i amrywio deunyddiau wyneb allanol yr unedau (caniatawyd gyda amodau).*
- ***C18/0678/43/HY*** *– Gosod 2 arwydd dros dro (gwrthodwyd)*.

4.2 Gellir gweld manylion y ceisiadau, yn cynnwys sylwadau'r Gwasanaeth AHNE, drwy edrych ar y ceisiadau yn system **Dilyn a Darganfod Ceisiadau Cynllunio** Cyngor Gwynedd**.** Hefyd gellir gweld ymateb sefydliadau eraill i'r ceisiadau.

## 5.0 ARGYMHELLIAD

5.1 Derbyn yr wybodaeth